# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com

£1

Tachwedd 2025 – Cyfrol 11 – Rhifyn 2

## Gwobrau teilwng iawn




Llongyfarchiadau calonnog i Heather Powell, Pennaeth Gwasanaeth Cerdd Cydweithredol Gogledd Cymru, sydd wedi ennill Aur yng nghategori Gwobr Gofal Cymru Sefydliad Syr Bryn Terfel am hyrwyddo'r celfyddydau mewn gofal cymdeithasol.

Sefydlwyd y sefydliad yn 2015, ac mae'n darparu gwersi miwsig ar gyfer plant yn Siroedd Conwy, Dinbych a Wrecsam.

Erbyn hyn, mae'r sefydliad yn gweithio gyda phlant mewn addysg prif ffrwd ac arbenigol a phlant sy'n cael eu haddysg adref ac yn darparu gwersi ar gyfer 7,000 o ieuenctid yn wythnosol.

Dywedodd Heather: "Roeddwn yn falch iawn o gael fy enwebu ar gyfer gwobrau'r rownd derfynol, ac rwy'n teimlo'n gryf nad i fi'n unig mae'r clod am hyn – ond i'r sefydliad cyfan a'r holl diwtoriaid sy'n rhan ohono."

Erbyn hyn mae'r sefydliad yn darparu gwaith ar gyfer dros 90 o gerddorion annibynnol.

Llongyfarchiadau i Elis Jones ar dderbyn gwobr gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru am gyfraniad eithriadol gan unigolyn.

Cafodd Elis a'i gyd-weithiwr, Alex Roberts, eu cydnabod am eu hymateb rhagorol yn ystod argyfwng meddygol oedd yn ymwneud â phlentyn dwy oed. Tra oedden nhw ar ddyletswydd yng Ngorsaf Dân Dinbych, ymatebodd y ddau yn bwyllog a phroffesiynol mewn sefyllfa hynod o anodd – gan roi ocsigen, cynnal y llwybr anadlu, a chofnodi gwybodaeth hanfodol i sicrhau trosglwyddiad hawdd i'r parafeddygon.

Roedd eu hamynedd a'u tosturi nid yn unig yn sicrhau bod y plentyn yn derbyn y gofal gorau posibl, ond hefyd yn dod â chysur a thawelu meddwl y teulu mewn argyfwng. Mae eu gweithredoedd yn adlewyrchu gwerthoedd craidd y Gwasanaeth – proffesiynoldeb, gofal, a gwasanaeth i'r gymuned – ni chaiff eu gwaith ei anghofio gan y teulu a gafodd eu helpu.



*Elis Jones ac Alex Roberts*

# Newyddion y pentre

***Pob dymuniad*** da i'r Parch. Sam Quilty sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Yn dilyn triniaeth ysbyty, pob dymuniad da i Margaret Williams, Jack Palin a Wyn Wilson. Roedd hi'n hyfryd gweld Buddug Foulkes yn y bore coffi fis Medi. Anfonwn ein cofion ati.

***Diolch*** i Helen Murphy am lanhau carped yr Ystafelloedd Coco; i'r Gymdeithas Hanes am y rhodd tuag at *Llais Llandyrnog*, ac i Mike Neumann am ei waith ardderchog yn argraffu ein cylchgrawn

***Diolch o galon*** i Elaine, Gwen a Hazel am harddu'r gylchfan gyda blodau'r gaeaf a bylbiau'r gwanwyn; i Bryn am y trefniadau, ac i Graham *Green Fingers* am y bylbiau a'r planhigion.




***Llongyfarchiadau*** i Ben a Becky ar enedigaeth mab bach Harri Glyn, gor-ŵyr i Sylvia Evans, Maes Clwyd.

**Cydymdeimlwn** â Gwilym Williams, Gwylfan, sydd wedi colli ei chwaer, Tegwen.

***Cyfarchion pen blwydd*** i Olga, Ger y Llan a ddathlodd ei phen blwydd yn 96 oed ar 24 Hydref.

***Boreau coffi*** Diolch o galon i bawb a gefnogodd fore coffi'r Llais tuag at y Little Princess Trust, gan godi £500 at achos teilwng iawn.

Mae Ruth Griffith a phwyllgor Dyffryn Clwyd, Cancer Research UK yn diolch i bawb a gefnogodd y bore coffi gan godi £427.

***Croeso*** i'r pentre i Adam ac Emma, a'u plant Elsi a Fred sydd wedi dod i fyw i Tŷ Coch. Gobeithiwn y byddwch yn hapus yn ein plith.

**Llongyfarchiadau** i dîm dartiau'r Golden Lion ar ennill cystadleuaeth 9-bob-ochr Dinbych.



## Siop Llandyrnog

**Oriau agor y siop**

| | |
|---|---|
| Llun | 8am – 5.30pm |
| Mawrth | 8am – 5.30pm |
| Mercher | 8am – 5.30pm |
| Iau | 8am – 5.30pm |
| Gwener | 8am – 5.30pm |
| Sadwrn | 8am – 4pm |

07301 573362
01745 422099

info@llandyrnogshop.com

ShopLlandyrnog

Llandyrnogshop.com

**Oriau agor y swyddfa bost**

Llun – Gwener 9am – 5.30pm
Sadwrn 9am – 12.30pm

Gallwch nôl parseli rydych wedi'u harchebu ar-lein o'r Swyddfa Bost.
Hefyd, postiwch bob peth wrth y cownter, gan fod incwm yn deillio o hyn.

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun 3ydd | Grŵp crefftau | 10am |
| | Trefoil Guild | 2pm |
| Maw 4ydd | Grŵp cyfeillgarwch | 7–9pm |
| Mer 5ed | Cyfarfod pwyllgor y *Llais* | 7pm |
| Gwe 7fed | Grŵp cwiltio | 1.30–3.30pm |
| Sad 8fed | Gweithdy crefftau | 9–canol dydd |
| Llun 10fed | Grŵp crefftau | 10am |
| Mer 12fed | Undeb y Mamau | 2pm |
| Llun 17eg | Grŵp crefftau | 10am |
| Maw 18fed | Cyngor Cymuned | 7pm |
| Mer 19eg | Tuesday Club | 2–3pm |
| Iau 20fed | Gweithdy crefftau | 6–9pm |
| Sad 22ain | Gweithdy crefftau | 9–canol dydd |
| Llun 24ain | Grŵp crefftau | 10am |
| Llun 29ain | Gweithdy crefftau: torch Nadolig | 9–canol dydd |

I hurio **Neuadd y Pentre,** cysylltwch ag Ivan Butler: 07799570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com

I hurio'r **Ystafelloedd Coco,** anfonwch e-bost at Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk

# Gwasanaethau'r eglwys

| | | |
|---|---|---|
| 2il | 11.15 | Boreol weddi: St Cwyfan |
| 9fed | 10.55 | Gwasanaeth Sul y Cofio: St Tyrnog |
| | 15.30 | Llan Llanast: Neuadd y Pentre |
| 16eg | 11.15 | Boreol weddi: St Cwyfan |
| 23ain | 11.15 | Cymun Bendigaid: St Cwyfan |
| 30ain | 10.30 | Gwasanaeth yr Ardal Genhadu: Eglwys y Santes Fair, Dinbych |

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Sad 1af | Grŵp crefftau | 10am–4pm |
| Llun 3ydd | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Mer 5ed | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad 8fed | Bore coffi – Capel y Dyffryn | 10am–11.15 |
| Sul 9fed | Llan Llanast | 3.30–5pm |
| Llun 10fed | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw 11eg | Clwb Garddio | 7–9pm |
| Mer 12fed | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad 15fed | Bore coffi – Clwb Garddio | 9am–5pm |
| Llun 17eg | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw 18fed | Cymdeithas Dyffryn Clwyd, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 6–9pm |
| Mer 19eg | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Llun 24ain | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw 25ain | Clwb Seryddiaeth | 7–9pm |
| Mer 26ain | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad 29ain | Bore coffi – y Gymdeithas Hanes | 10am–11.15 |

***Capel y Dyffryn***

Bore Coffi

Dydd Sadwrn 8 Tachwedd

10 – 11.15 yn Neuadd y Pentre

Stondinau arferol, raffl –

*croeso cynnes i bawb!*

## Sul y Cofio
## 9 Tachwedd 2025

**Eglwys St Tyrnog** **am 10.55am**

ger y Gofeb Ryfel,

a gwasanaeth wedi hynny yn yr eglwys.

Croeso i bawb

**Does dim gwres yn yr eglwys,**
**felly gwisgwch ddillad cynnes**

# Siop Llandyrnog

Faint dybiwch chi o oriau gwaith wnaeth y gwirfoddolwyr yn y Siop yn ystod mis Ionawr eleni? Mwy neu lai na 100? Dyma ran o’r ‘gêm’ chwaraeon ni yn ail Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Siop Gymunedol Llandyrnog Cyf. Yr ateb ydi 174 awr!

Rhannwyd llawer o rifau eraill gyda’r gynulleidfa o gyfranddalwyr, ffrindiau a chymdogion nos Iau, 9 Hydref yn Neuadd Bentref Llandyrnog e.e. twf o 241% o ran arian cadw yn ystod yr wyth wythnos gyntaf ers ailagor y Swyddfa Bost, o’i gymharu ag unrhyw un o’r pum mlynedd flaenorol yn Swyddfa’r Post Llandyrnog.

Roedd y flwyddyn ariannol o Ebrill 2024 i fis Mawrth 2025 yn gyfnod o newid mawr. Cynhaliwyd gwaith adnewyddu ac ailwampio sylweddol. Cafodd tîm staff gwych ei recriwtio, sef Emma, Kayleigh a Heulwen, ac enillodd y tair gymwysterau llawn ym mhob agwedd o waith Swyddfa’r Post. Rhoddodd mwy na 20 o wirfoddolwyr eu henwau ymlaen i helpu – ni allem ni wneud hebddyn nhw. Y nhw sy’n gwneud ein siop bentref a’n canolfan gymunedol ni’n lle mor groesawgar erbyn heddiw.

Ar 10 Hydref 2024, banciodd aelod o’r Bwrdd, Viv Rosser, y siec gyntaf dros gownter newydd y Swyddfa’r Post: rhodd o £5000 gan Gyngor Cymuned Llandyrnog ar gyfer y cyffyrddiadau olaf y tu mewn a’r tu allan. Yn raddol, llenwyd y siop â phob math o ddanteithion blasus gan gyflenwyr lleol, yn cynnwys Chilly Cow, Bara Henllan, Cigyddion JH Jones, Dinbych a Chegin Bryn. Sylwon ni ar gynnydd sydyn yn nifer y cwsmeriaid yn y 48 awr cyn *Storm Darragh* ym mis Hydref y llynedd. Eleni, gwelodd *Storm Amy* fod hanfodion bob dydd: llaeth, wyau a bara yn diflannu oddi ar y silffoedd. Y teimlad erbyn hyn ydi bod y siop yn fwy na ‘*rhywbeth neis i’w gael*’ yn y pentref – mae hi bellach yn rhoi'r hyn sydd ei angen ar bobl bob dydd, pryd bynnag y bydd hynny!

Rydym yn edrych ymlaen at flwyddyn dda arall, a gyda’ch cefnogaeth, teimlwn yn hyderus y cawn ni hynny.



**Dathlu**

Diolch yn fawr i’r holl wirfoddolwyr, cwsmeriaid, cyfeillion a chymdogion a ddaeth allan ar bnawn eitha gwlyb i ddathlu ‘pen blwydd’ cyntaf ein siop a’n swyddfa bost wychiawn. Cawsom gefnogaeth dda hefyd gan yr aelodau o’r bwrdd sydd newydd eu ethol, sy’n edrych ymlaen at ddatlbygu’r ganolfan bwysig hon gyda chymorth hanfodol Emma, Kayleigh, a Heulwen.

**Cyngor Sir Ddinbych**



**Merfyn Parry**

Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*

# Eisteddfod Llandyrnog





Rhai o'r plant a fu'n cystadlu yn yr eisteddfod.

# Tuesday Club



Mae Livia Jones yn artist sy'n gweithio gyda phensiliau lliw, ac yn creu darluniau cain iawn yn seiliedig ar ffotograffau.

Dangosodd luniau i ni o sawl math o destun – anifeiliaid anwes (sawl un yn waith comisiwn), aelodau ei theulu, tirlun a darlun bywyd llonydd. Hefyd cawsom weld darlun o'r tenor Jonathan Antoine o'r gyfres *Britain's Got Talent* – dyma un o'i hoff luniau.

Enillodd wobr yr arddangosyn gorau yn Sioe Llandyrnog 2022 ac mae lluniau ganddi wedi'u cynnwys mewn dwy gyfrol o *Ann Kulberg's CP* [Coloured Pencil] *Treasures* a gyhoeddir yn America. Os hoffech weld rhagor o'i luniau, ewch i liviajonespetportraits.com.


TY CEFFYL BACH

Facebook 07768 331488 Instagram

www.tyceffylbach.co.uk

info@tyceffylbach.co.uk

4 Kinmel Terrace, Llandyrnog




- Unique gifts
- Exclusive hand-forged and crafted horseshoe art and friends
- Quirky gifts to suit all budgets
- **Open 11-4pm, Tues-Sat**



## Rhybudd – tatws!

Teithio i lawr i'r Rhewl oeddwn i o Landyrnog, a bob hyn a hyn, yn dod ar draws taten neu ddwy – wel, i ddeud y gwir roedd 'na swp ohonyn nhw! Mewn car, fase hynny ddim llawer o broblem – dim ond eu gwasgu i lawr wrth fynd drostyn nhw! Ond roedd hi'n fwy o sialens wrth fynd ar fy motobeic. Wrth gael eich hyfforddiant sylfaenol ar fotobeic, rhaid i chi fynd yn slalom rownd y côns – yn ara deg. Mae tatws ar y ffordd fawr yn gwneud yr un job ond ar sbîd llawer cynt – mi fydde'r hyfforddwr yn falch ohona i!


Rhan o'r hyfforddiant ychwanegol ydi cael prawf 'canfod perygl tebygol'. Roedden nhw'n dangos i ni dros saith deg o senarios 'peryglon' posibl ar y ffordd, a doedd tatws ddim yn un ohonyn nhw!

Ar ôl i mi fynd adre, dyma fi'n crafu 'mhen a meddwl o ble'n union ddaeth y tunelli tatws 'ma, ac i ble roedden nhw'n mynd!

Dyma'r ateb – mae'r rhai o Blas y Ward, Rhewl yn cael eu tyfu ar gyfer cwmni Bartlett a'u troi yn fwyd babis.

Mae'r tatws uwchben Cerrigllwydion yn rhai *Rooster* ac yn cael eu tyfu ar gyfer *Albert Bartlett*. Mi fyddan nhw'n cael eu gwerthu fel *Bartlett's Rooster.* Mae'r tatws o'r caeau o dan Cerrigllwydion yn rhai *Elland*, ac yn cael eu hanfon i *McCains* a'u prosesu ar gyfer sglodion wedi rhewi. Wel, dyna chi'n gwybod rŵan. Yr unig beth sy 'mhoeni fi rŵan – ai tatws i fwyd babis, sglodion wedi rhewi neu datws plaen *Rooster* wnes i fedru eu hosgoi wrth reidio'r motobeic!! (*Diolch, Merfyn am roi'r wybodaeth yma i mi!)*

*Bryn Davies*




## Cyngerdd St Tyrnog

Ar Nos Sadwrn, Hydref 4ydd, trefnwyd cyngerdd yn Neuadd y Pentref i godi arian tuag at wresogydd i Eglwys Sant Tyrnog.

Roeddem yn falch bod Côr Meibion Caerwys wedi medru ymuno â ni eto eleni, a chawsom amrywiaeth o'u hoff ganeuon yn Gymraeg a Saesneg

Diolch i Heather Powell, cawsom gwmni cerddorion ifanc, lleol hynod dalentog – maen nhw bron yn broffesiynol yn barod. Bydd hi'n braf cael dilyn eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

Mwynhaodd pawb y noson – byddwn yn siŵr o droi hon yn noson flynyddol. Codwyd dros £500 ar gyfer cronfa'r Eglwys a diolch i bawb am eu caredigrwydd a'u cefnogaeth.



Mike Neumann
Printers Ltd


- Business printing
- Personalised printing
- Office supplies
- Helium balloons



01745 814067
07766 807498

41 Vale Street, Denbigh LL16 3AH
neumannprinters@aol.com
neumannprintersdenbigh.co.uk

# Sammy yr Alpaca



Helo! Fy enw i ydi Samuel, neu Sammy yn fyr. Weithiau, mae pobl yn fy ngalw i y Karate Kid – mi eglura i pam mewn munud!

Dwi'n bedair oed, ac yn byw efo fy ffrindiau Cedric, Dougal a Harvey ychydig y tu allan i'r pentref. Mae gen i glustiau gwyn blewog iawn a dannedd bach *gymi*! Dwi'n fywiog, yn llawn drygioni, ac ambell dro mae gen i dipyn o agwedd – gadewch i mi egluro i chi pam mae pobl weithiau'n fy ngalw i'n *Karate Kid*! Ie, rydech chi'n iawn – mae gen i gic mor gyflym â mellten pan fydda i'n meddwl bod fy mherchnogion am drio gwneud unrhyw beth i mi, e.e. torri f'ewinedd neu roi ffisig i mi. Maen nhw wedi dysgu ers tro i beidio byth â sefyll y tu ôl i mi, rhag ofn y bydda i'n cicio! Dydw i ddim yn ei wneud o'n fwriadol – rhywbeth naturiol ydi o – hyd yn oed pan fydd pry'n hedfan o gwmpas fy nghynffon, mi fydda i'n rhoi cic iddo fo!

Ar yr achlysur prin pan ydw i yn llwyddo i daro 'mherchnogion efo cic, mae'n brifo 'chydig, ond dydi o ddim yn achosi dim niwed go iawn – ychydig o gleisio ar y gwaethaf. Mae hyn oherwydd bod fy nhraed i'n debycach i bawennau cŵn – dim ond padiau meddal gyda dau neu dri ewin, felly dydw i ddim yn gallu achosi unrhyw niwed go iawn fel mae rhai anifeiliaid mawr yn gallu gwneud.

Un o fy mhrif swyddi yn y gyr ydi bod y Prif Leidr. Fi fel arfer ydi'r cyntaf at y goeden 'fale i drio dwyn un pan mae'r perchnogion wedi troi eu cefnau arnon ni. Fel arfer dwi'n llwyddo hefyd, cyn i mi gael cerydd a "shwww!!".

Dwi hefyd yn dda iawn am sylwi ar unrhyw un neu unrhyw beth newydd – dwi'n debyg i larwm tresmaswr ar droed! Pan mae'r postmon cyfeillgar yn dod, dwi'n rhythu arno. Pan mae pobl dosbarthu Amazon yn galw, dwi'n rhythu arnyn nhw. Pan mae ci drws nesa' yn dod at y ffens, dwi'n rhythu... a pan mae Gregory y Gath Lwyd yn sleifio drwy'r ardd, dwi'n rhythu arni hi hefyd – ac weithiau'n rhoi galwad larwm i rybuddio'r lleill. Pan nad wyf yn ceisio dwyn 'fale na chwarae bownsyr, dwi'n hoffi torheulo, cnoi cil a rhoi fy mhen yn y gwrychoedd.

Y tro nesaf, bydd Dougal bach yn cyflwyno ei hun i chi! Cymerwch ofal am y tro... dwi'n mynd i wneud drygau!


**Prompt Travel**

**Taxi & Private Hire**

**4, 8 & 16-seat vehicles**
**24 hrs 7 days a week**

Incorporating Vale Private Hire

**01824 790485**
**07974 862027**

**Teithiau Prydlon**

**Tacsi a Hurio Preifat**

# Capel Dyffryn

***Y Gymdeithas*** Cychwynnwyd tymor y Gymdeithas gyda bwffe hyfryd iawn a Catrin, Glesni a Siwan yng ngofal y bwyd. Roedd yr adloniant yng ngofal 'Proffesor Llusern', y gŵr gwadd. Cafwyd adloniant o'r radd flaenaf ganddo wrth iddo ganu, adrodd straeon, dweud jôcs, gwneud triciau, a phwy all anghofio'r 'Gorila'n siarad'! Noson agoriadol ragorol.

***Cyfarfod Diolchgarwch*** Pnawn Sul 12 Hydref, cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant yn y Festri. Thema'r gwasanaeth oedd 'Dwylo' ac roedd y plant wrth eu bodd yn canu ac yn cymryd rhan (llun isod). Roeddent hefyd wedi bod yn brysur yn yr Ysgol Sul yn tynnu llun coeden fawr ac wedi paentio siâp eu dwylo ar y goeden. Ar ôl mwynhau lluniaeth, cafodd yr oedolion gyfle i ychwanegu ôl eu dwylo mewn paent ar y goeden – *Coeden Deulu Eglwys y Dyffryn*. Diolch i Glesni, Gwenno, Siwan a'r rhieni i gyd am baratoi'r plant.

**Gwasanaethau**

| | | |
|---|---|---|
| 02/11 | 11.00 | Parch. Andras Iago |
| 09/11 | 10.45 | Sul y Cofio yn eglwys St Tyrnog |
| 16/11 | 10.00 | Parch. Huw Pritchard |
| 23/11 | 9.45 | Parch. Andras Iago |

# Ysgol Bryn Clwyd

Mae mis Hydref wedi hedfan heibio ac wedi bod yn llawn gweithgareddau. Ymunodd Blwyddyn 6 â Blwyddyn 6 o Ysgol Gellifor i fwynhau digwyddiad hoci yn Rhuthun. Mae'r Ysgol Goedwig wedi bod yn brysur gyda llawer o weithgareddau'r hydref yn ymwneud â phwmpenni, dail yr hydref ac afalau oedd wedi disgyn.

Diolch enfawr i bawb a gefnogodd Dosbarth Tyfu gyda'u diwrnod '*Tyfu Takeaway*'. Diolch i'ch haelioni, llwyddodd y dosbarth i godi digon o arian i dalu am daith bws! Diolch yn fawr eto i Gyfeillion yr Ysgol am drefnu ein digwyddiad hwyliog, cerfio pwmpenni, a llwyddwyd i godi £400 i'r ysgol!

Rydym yn hynod falch o'n disgyblion i gyd a gymerodd ran yn Eisteddfod Llandyrnog, a chael llwyddiant arbennig ym meysydd adrodd a chelf.

Hoffem wahodd ein cymuned i ymuno â ni ar gyfer Cinio Nadolig ddydd Mercher, 10fed Rhagfyr am 12 o'r gloch yn Neuadd y Pentref. I gadw'ch lle, anfonwch e-bost at llandyrnog@denbighshire.gov.uk.

**Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau at y rhifyn hwn**



# Dyfal donc. . .

Ar ddiwrnod clir, braf ac awel ysgafn, mi wawriodd arnon ni'n dau pa mor ddoeth ydi'r hen ddihareb '*Dyfal donc a dyr y garreg*'! Maen nhw'n deud bod Thomas Edison wedi dyfalbarhau am hyd at fil o weithiau cyn dyfeisio'r bwlb golau cyntaf. Dim ond 14 o weithiau mewn chwe blynedd y bu rhaid i ni ddyfalbarhau i drio defnyddio ein tocynnau '*reid mewn balŵn'* – rhodd gan y teulu (dim ein syniad ni)!!

O'r diwedd, mi ddaeth hi'n ddiwrnod perffaith i godi i'r awyr – bron nad oedden ni'n coelio'r peilot wrth eu ffonio'r bore hwnnw! Codi o Glwb Rygbi yr Eglwys Wen, Swydd Amwythig (Erddig oedd y man cychwyn i fod yn 2019!). Dyna lle'r oedd 16 ohonom yn eistedd yn reit gyffrous yn y fasged fawr ddofn yn gafael yn dynn yn y rhaff tu mewn, a disgwyl i'r aer lenwi'r balŵn, a'r llosgwr i gynhesu'r aer.

'*You can stand up now*' medde'r peilot – roedden ni wedi dechrau codi heb i ni ddeall!

Profiad anhygoel! Mi gawsom ni wledd o olygfeydd hardd a lliwgar – digonedd o dir ffermio bras bob yn ail â bryniau bychain dros bentrefi Bronington, Hanmer, a Penley. Cododd y balŵn i uchder o 2000 o droedfeddi. Roedd hi'n amser godro, a gallech weld rhai gwartheg yn mynd fewn i'r parlwr godro a'r lleill yn dod allan yr ochor arall. Roedd hi'n rhyfedd bod uwchben defaid a cheffylau – rhai'n trio cuddio o dan goeden fawr i gysgodi. Cawsom chwifio ein dwylo hyd yn oed, ar ryw hogyn bach yn chwarae yn ei ardd gefn! Dim ond cip gawsom ni o Fryniau Clwyd a rhan o Ddyffryn yr Afon Dyfrdwy o gwmpas Llangollen – o bell!

Ar ôl y teimlad braf o arnofio'n ddistaw yn yr awyr am ryw awr, daethom i lawr braidd yn drwm ar gae gwair gwag. Yna, helpu i lapio'r balŵn anferth a'i rhoi ar drelar, a chawsom ychydig o broseco i ddathlu'n camp ddewr!




*Iestyn ac Ann ar y chwith*

Ymddangosodd y bws mini allan o nunlle ar lôn y ffarm, reit wrth giât y cae, a'n cludo ni'n saff yn ôl at y ceir. Ar ôl ambell i sgwrs gyda'n 'ffrindiau mewn antur' daethom adre'n un darn, a chael dweud wrth y teulu – do, **mi** ddigwyddodd o a **bod** y balŵn wedi mynd fyny o'r diwedd a ninne wedi mwynhau!

Tan y tro nesa,

*Iestyn ac Ann*

J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK -
FARM TYRE SPECIALISTS
BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602

# Norwy: mwy na ffiordau ac awyr iach

Roedd ein hymweliad diweddar â Norwy yn rhoi cipolwg hynod ddiddorol i ni ar ffordd o fyw reit galed – lle mae tirwedd wedi'i grafu allan o graig noeth yn bodoli ochr yn ochr ag un o economïau mwyaf cadarn Ewrop.

Ein cartref am yr wythnos oedd cwch bach arfordirol *Hurtigruten*, oedd yn ein cludo ni'r twristiaid ac yn gwasanaethu cymunedau'r arfordir drwy gario teithwyr, ceir a nwyddau i ardaloedd anghysbell.

Roedden ni'n hwylio i lawr y ffiordau – a'u hochrau fertigol yn dangos effeithiau difrifol y cyfnod rhewlifol diwethaf, tua 12,000 o flynyddoedd yn ôl. Roedd effeithiau'r rhewlifau hefyd yn amlwg iawn ar seiliau'r graig galed noeth o granit a gneis – gallech weld rhiciau rhewlifol a gerfiwyd gan gerrig gafodd eu llusgo o dan yr iâ.

Er nad oedd y waliau rhewlifol serth yn syndod i ni, doeddem ni ddim yn disgwyl gweld cartrefi wedi'u lleoli'n union wrth eu gwaelod, neu'n glynu wrth ochrau'r dyffrynnoedd siâp U. Doedden ni ddim yn gallu deall sut y gallai'r trigolion gyrraedd eu cartrefi o gwbl. Yn wreiddiol, pysgotwyr oedd yn byw yn y tai hyn – pobl a wnaeth gyfraniadau sylweddol iawn i economi Norwy yn y gorffennol.

Erbyn heddiw, mae gorbysgota wedi arwain at ostyngiad yn y stoc pysgod, ac felly – fel mewn llawer rhan arall o'r byd – mae'r tai hyn bellach yn dai gwyliau, neu'n dai i bobl sy'n dymuno byw ychydig ymhellach oddi wrth fodau dynol!

Mae llongau mordaith bellach yn ffynhonnell incwm bwysig i'r ardaloedd arfordirol, ac mae Norwy yn ystyried adeiladu twnnel llongau llawn maint cyntaf y byd – tua milltir o hyd ac ar gost debygol o hanner biliwn o bunnoedd. Os ânt ymlaen â'r prosiect, bydd yn darparu llwybr mwy diogel drwy'r dyfroedd mwyaf peryglus ar arfordir gorllewinol Norwy.

Wrth i ni hwylio tua'r Gogledd roedd y tymheredd yn gostwng, a natur yn mynd yn fwy gwyllt – roedd llai a llai o arwyddion o dai a phobol yn byw ynddynt. Roedd goleuni'r awyr gyda'r nos yn troi'n lliwiau hudol, a'r tymheredd yn gostwng yn is wrth i ni agosáu at ein lledred mwyaf gogleddol o 70°.

Oedd, roedd yr amgylchedd yn eithaf caled – ar ôl Oes yr Iâ, roedd mwsoglau a chen wedi gwladychu'r tir i ddechrau, wedyn daeth y dolydd alpaidd a ffurfiodd garpedi ar draws y twndra. Pan ddatblygodd y pridd, daeth coed bedw, helyg a phinwydd i wreiddio yn yr amodau mwyaf heriol.

Er gwaethaf y tir heriol, roedd yn syndod dysgu mai dim ond 3 y cant o'r tir sy'n dir amaethyddol, a lleolir hwn mewn tair ardal – Østlandet, tir âr o gwmpas Oslo; Trøndelag yng nghanol Norwy, sy'n ardal ffermio llaeth, cig eidion a defaid; tra bod Jæren yn ne orllewin Norwy yn ardal ffermio cymysg. A heb anghofio'r ardaloedd ffermio ceirw yn y Gogledd pell.

Mae harddwch garw Norwy a'i dymor tyfu byr yn dod â'i broblemau – dim ond mewn llaeth a chig mae'r wlad yn hunan gynhyrchiol, ac mae'n rhaid mewnforio llawer o fwydydd anifeiliaid a chnydau tymherus, e.e. afalau, o'r UE.

Oherwydd y tir garw, mae'r ffermydd yn fach – tua 50 erw, a buches odro o tua 20 buwch. Gwelsom ni lawer o ddiadelloedd o lai na 100 o ddefaid. Felly, o reidrwydd, mae'r rhan fwyaf o ffermwyr Norwy yn gweithio'n rhan-amser ar y ffarm.

Mae economi Norwy yn cael ei ddominyddu gan olew, nwy, pysgod a thechnoleg, ac er bod twristiaeth yn tyfu, dim ond mewn rhai ardaloedd mae hi wedi dod yn ffynhonnell incwm sylweddol. Mae'n debyg ein bod ni wedi ymweld â'r ardaloedd hyn, fel Ynysoedd Lofoten, lle'r oedd rhentu tai haf yn bwysig fel ffynhonnell incwm i'r boblogaeth leol.

Ond mae 'na fwy i Norwy na ffiordau ac awyr iach. Mae lefelau dyled y Llywodraeth yn isel iawn, ac mae'r GDP y pen yn golygu

# Norwy : parhad

bod Norwy yn un o genhedloedd mwyaf cyfoethog y byd. Am dros 50 mlynedd, mae'r boblogaeth o ddim ond 5.5 miliwn wedi elwa o gronfeydd olew enfawr. Cafodd Llywodraeth Prydain yr un fantais o gronfeydd olew Môr y Gogledd, ond cafodd Llywodraeth Norwy'r weledigaeth i fuddsoddi mewn cronfa gyfoeth cenedlaethol sydd bellach werth triliynau o ddoleri. Dim ond lleihau trethi wnaeth Llywodraeth y DU, yn hytrach na chreu cronfa ariannol barhaol.

Oherwydd ei pholisi ariannol cadwrol, mae Norwy ers tro wedi bod yn wlad ddrud iawn i ymweld â hi – roedd ein cyllideb ni dan straen a'r boced yn gwagio'n gyflym. Hefyd, roedd y bobol leol yn honni, er bod eu cyflogau CYFARTALOG tua £40,000, bod costau byw yn cynyddu'n gyson. Doedd prisiau tai fel y gwelsom ni yn y trefi mwy, ddim yn helpu'r sefyllfa.

Wrth siarad â rhai o'r ieuenctid ar ein cwch, roeddent yn obeithiol, ond hefyd yn ansicr am y dyfodol – ceisio cydbwyso eu hofnau ynglŷn â'r hinsawdd gyda'u breuddwydion am yrfa dda. Rydw i'n siŵr y bydd eu natur wydn yn help iddyn nhw lwyddo.

Roedden ni'n ffodus i brofi tywydd Arctig yn ystod yr Haf, ond mae tywyllwch y gaeaf diddiwedd yn siŵr o ddrysu dyddiau ac effeithio ar hwyliau pobol Norwy. Ond mae'r Norwyaid yn ei dderbyn drwy fod yn wydn – dod at ei gilydd yn gynnes glyd, canfod cynhesrwydd mewn natur, mewn cymuned a thraddodiadau diwylliannol.

O brysurdeb a dociau lliwgar Bergen draw i lonyddwch rhewllyd Ynysoedd Lofoten, mae Norwy yn cynnig amrywiaeth eang o brofiadau – yn enwedig os ydech chi'n mwynhau tirwedd, natur, a rhannu profiadau gyda'r boblogaeth leol.

*Rod Williams*

# Grŵp Cyfeillgarwch

Daeth y Grŵp Cyfeillgarwch at ei gilydd yn yr Ystafelloedd Coco nos Fawrth, 7 Hydref am 7 o'r gloch. Yn anffodus roedd ein siaradwr gwadd yn methu dod aton ni oherwydd salwch ac fe gawson ni noson gymdeithasol yn lle hynny. Anfonwyd ein cofion am wellhad buan at Iona ar ôl ei damwain wrth reidio ceffyl. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 4 Tachwedd.

# Llan Llanast

Buom yn dathlu'r Cynhaeaf yn ein sesiwn fis Hydref. Buom yn gwrando ar stori Iesu'n porthi'r pum mil a pha mor bwysig ydi rhannu'r hyn sydd gennym gyda rhai sy'n llai ffortunus. Gwnaethom sawl doli ŷd a dalwyr canhwyllau bach a thynnu lluniau gyda stensilau cynhaeaf. Buom wedyn yn gwneud arddangosfa o bopeth y dylen ni fod yn ddiolchgar amdano.




# Undeb y Mamau

Fel arfer, yng nghyfarfod mis Hydref, byddwn yn llenwi ein bocsys *Operation Christmas Child*, ac yn cael llawer o hwyl yn dewis eitemau i roi yn y bocsys – gan obeithio'r un pryd y bydd y plant sydd yn eu derbyn hefyd yn mwynhau eu cynnwys.

# MHC

***Sioe Flodau***
Ym mis Awst, mynychodd Rheolwyr ac Arweinwyr Tîm o Highfield Park Sioe Flodau Dinbych. Roedd y diwrnod yn gyfle gwych i arddangos beth mae MHC yn ei wneud, y gwasanaethau a ddarparwn, a'r gefnogaeth ragorol a roddwn i'n preswylwyr.



Eleni, penderfynasom fabwysiadu dull gwahanol drwy ddangos enghreifftiau o'r gwaith papur a ddefnyddiwn o fewn ein gwasanaethau. Rhoddodd hyn gyfle i aelodau'r cyhoedd weld yn uniongyrchol sut rydym yn cefnogi unigolion mewn ffordd strwythuredig ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd yn bleser cyfarfod â chymaint o bobl oedd â diddordeb mewn dysgu mwy am MHC a rhannu straeon cadarnhaol o'n gwasanaethau.

Diolch arbennig i Philibert Igweh, Arweinydd Tîm yn Pine, a Gwydion Alun, Arweinydd Tîm yn Elm, am fynychu'r digwyddiad ac am gefnogi tîm rheoli Highfield Park.

***Ffair Haf flynyddol Parc Highfield***
Adlewyrchodd Ffair Haf eleni'r hyn sy'n gwneud MHC mor arbennig. Cynhaliwyd yr ŵyl ar lawnt brydferth Parc Highfield, gan ddod â phreswylwyr, eu teuluoedd, ffrindiau a staff ynghyd i ddathlu cysylltiad, cynhwysiant a hwyl.

Trefnodd Rheolwyr Cofrestredig Parc Highfield a'u timau eu pabell unigryw eu hunain, yn llawn o gemau, danteithion cartref, a gweithgareddau a oedd yn adlewyrchu personoliaeth a chalon pob gwasanaeth.




Daeth band byw, *The Recliners*, â cherddoriaeth a naws wych i'r diwrnod ac roedd llawer o ddawnsio! Cadwodd porc wedi'i rostio, stondin gacennau, a lluniaeth blasus bawb yn hapus.

Yn MHC, ein hymrwymiad i wneud gwahaniaeth, mwynhau ein gwaith, a rhannu ein pwrpas yw'r hyn sy'n ein huno. Mae digwyddiadau fel hyn yn dod â'n gwerthoedd yn fyw trwy brofiadau go iawn, perthnasoedd, ac ysbryd cymunedol.

***Chwarae at Achos Da***
Yr haf hwn, daeth staff a phreswylwyr at ei gilydd ar faes Clwb Pêl-droed Llandyrnog i chwarae gêm bêl-droed arbennig iawn er mwyn codi arian tuag at Glwb Pêl-droed Llandyrnog ac Eglwys Llandyrnog.

Roedd y digwyddiad, a drefnwyd gan Sophie, Rheolwr Cofrestredig Pine, yn enghraifft ragorol o'n hymrwymiad i feithrin ysbryd cymunedol a chysylltiadau cadarnhaol. Daeth staff a phreswylwyr at ei gilydd ar y cae mewn awyrgylch o frwdfrydedd, cystadleuaeth deg, a hwyl gyffredinol drwy'r dydd. Llwyddon ni i godi £1,304.36 – da iawn i bawb fu'n helpu i wneud y diwrnod yn un mor llwyddiannus.



# Y Clwb Garddio

Cawsom ein cyfarfod cyntaf go iawn o'r clwb ym mis Hydref, pan ddaeth Jane Moore, ar fyr rybudd, i sgwrsio am y Cynllun Gerddi Cenedlaethol. Daeth nifer dda i'r cyfarfod a chroesawyd rhai aelodau newydd. Cyfnewidiwyd hadau, cafwyd raffl a bu'r aelodau'n sgwrsio wedyn am waith y Cynllun Gerddi Cenedlaethol.

Bydd ein cyfarfod nesaf 11 Tachwedd am 7pm yn Ystafell Waelod Neuadd y Pentref, a byddwn yn croesawu Mary Watkin Jones fydd yn sgwrsio am ei '*Mordaith Gerddi*' diweddar, ac yn dangos gerddi yr ymwelodd hi â nhw yn Amsterdam, a Gerddi Tresco a Gardd Monet. Os oes diddordeb gennych i ymuno â'r clwb, pam na ddowch chi draw?

**Clwb Garddio Llandyrnog**

**Bore coffi**

**Bore Sadwrn, 15 Tachwedd am 10 yn Neuadd y Pentre**

**Croeso cynnes i bawb!**






Paul Clark

Conservatories



- Survey, supply and fit:
  - conservatories
  - orangeries
  - verandas
  - porches
  - windows
  - doors

07546 911871


# Y Gymdeithas Hanes

Cafwyd cynulleidfa dda ar gyfer sgwrs a chyflwyniad gwych ar gestyll Rhuthun a Dinbych – eu hanes a heriau eu cadwraeth, gan Fiona Gale, MBE. Cafwyd cyfarfod blynyddol y Gymdeithas cyn y sgwrs.

Mae croeso cynnes i bawb bob amser yng nghyfarfodydd y Gymdeithas. Am ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost at llangwyfanhistory@hotmail.com.




*Julia Hughes, Cadeirydd; Fiona Gale, a Rona Aldrich, Rheolwr Busnes.*

Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan

**Bore Coffi**

**Dydd Sadwrn 29 Tachwedd**
**10 –11.30am yn Neuadd y Pentref**

Bydd byrddau yn gwerthu cacennau a cynnyrch, a chyhoeddiadau y Gymdeithas Hanes (perffaith fel anrhegion Nadolig!), yn ogystal â'r raffl arferol gyda llu o wobrau

Mynediad am ddim a croeso cynnes i bawb.

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Hanesion Hazel

Mae 'na rhywbeth hudol am gerdded ar y traeth heb ddisgwyl cael gwneud hynny. Dwi wastad wedi bod eisiau mynd am dro ar draeth lleol ar fy mhen blwydd, ac eleni mi lwyddais i wneud hynny yng nghwmni ffrindiau da!

Ar bnawn Sul heulog ddechrau Medi, aethon ni cyn belled â Thraeth Morfa Conwy ar ôl mwynhau pryd o fwyd blasus ym mwyty Signatures. Roedden ni i gyd wedi gwisgo'n smart ar gyfer pryd bwyd ond ddim ar gyfer taith gerdded. Ond gan fod yr haul yn gwenu, mi benderfynon ni gerdded 'chydig ar ôl pryd mor swmpus!

Felly, i ffwrdd â'r esgidiau a cherdded dros y twyni i lawr at y traeth melyn. I mi, mae'n deimlad arbennig pan fydd y tywod mân yn gynnes dan draed, ac yn rhwbio rhwng bysedd eich traed, yr haul yn llachar ac awel gref yn chwythu'n gwalltiau taclus i bob man. Roedd 'na rywbeth therapiwtig yn sŵn y tonnau'n golchi dros ein traed wrth i ni gerdded wrth ymyl y dŵr.

Daeth hyn â llawer o atgofion melys yn ôl i mi o'r amser pan oedden ni'n byw yn Formby, dim ond tafliad carreg o'r môr. Heb yn wybod i'm rhieni, mi fyddwn i'n aml yn dringo dros ffens yr ardd, a rhedeg drwy'r goedwig gonwydd at lan y môr. Fydde hynny ddim yn digwydd y dyddie hyn – am resymau diogelwch, yn un peth. Ta waeth, daeth llif o atgofion hapus yn ôl i mi, yn gymysg â theimlad o dristwch fy mod i flwyddyn yn hŷn a llawer o'm teulu ddim efo fi bellach. Ar Ddydd Gŵyl San Steffan, mi fydden ni fel teulu'n mynd am dro ar hyd y traeth, ac, erbyn diwedd, yn chwilio am drysorau ar hyd llinell y llanw. Mae'r môr yn golchi cymaint o bethau i'r lan – pethau naturiol fel cregyn a gwymon, ond hefyd poteli plastig a rhwydi pysgota – rwbel pobol!

Y pethe mwyaf diddorol ydi'r rhai anghyffredin sydd wedi eu colli dros fwrdd llongau mawr, yn enwedig ar ôl stormydd. Mae cerrynt môr garw'n medru cario'r pethe



yma am filltiroedd. Un o'r rhai mwyaf diddorol oedd motobeic Harley Davidson a gollwyd o long yn cario llwythi mawr yn Japan adeg y tswnami yn 2011. Daethant o hyd iddo ar draeth yn British Columbia yn 2012! Ond chawson ni erioed ddim byd tebyg ar draeth Formby. Un Nadolig, mi gawson ni hyd i rigin rhyw long a mynnodd fy nhad ddod â fo adre. Felly, cariodd fy mrodyr a minne'r trysor yma yn ôl i'r tŷ. Chafodd 'nhad dim defnydd ohono, a dyna ble buodd o, yn y garej am flynyddoedd, nes i ni symud tŷ – ac wedyn, roedd rhaid i'r dynion dodrefn ei bacio yng nghefn y lori efo gweddill y 'trysorau' a fy mam yn deud y drefn!!

Ymlaen aethon ni, ni ar hyd y traeth eang tuag at Landudno. Doedd y traeth ddim yn brysur iawn – ambell i blentyn yn mentro rhoi ei draed yn y môr a'r bobol hŷn yn eistedd ar y twyni tywod yn cysgodi rhag y gwynt! Mi wnaeth un dyn sylw wrth basio – deud ein bod ni'n edrych yn rhy smart i fod ar lan y môr! Ond doedden ni'n poeni dim. Roedd o'n lle i ymlacio a lle i ddeffro'r synhwyrau ar yr un pryd – roedd sŵn rhythmig y môr ac ehangder y traeth yn creu rhyw lonyddwch. Roedd ein hwynebau'n sgleinio a phawb mewn hwyliau da, ond daeth hi'n amser i rwbio'r tywod o'r traed a llwytho'r car, cyn troi am adre a bywyd bob dydd. Pnawn gwirioneddol hyfryd!

*Hazel*

# Cyngor Cymuned Llandyrnog

**Nodiadau cyfarfod mis Medi**

- Roedd David Jones, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) yn bresennol yn y cyfarfod a chofnodwyd naw trosedd yn yr ardal ers cofnodion mis Gorffennaf, yn cynnwys:
  - ◊ Preswylydd yn bygwth un arall – dim cwyn swyddogol
  - ◊ Difrod bwriadol i ddrws preswylydd – ymchwiliad yn parhau
  - ◊ Ymosodiad – dau yn mynd â'u cŵn am dro yng nghoedwig Llangwyfan
  - ◊ Pryderon am les plentyn – wedi ei gyfeirio at yr awdurdod priodol
  - ◊ Ymddygiad anghymdeithasol – cythraul gyrru
  - ◊ Cerbyd a amheuir o fod wedi'i ladrata wedi'i adael, ac wedi'i adfeddiannu gan yr heddlu
  - ◊ Damwain traffig ffyrdd ar yr B5429 rhwng Llandyrnog a Bodffari
  - ◊ Cofnodwyd yn y cyfarfod, ond nid oedd wedi'i gofnodi ar y daflen digwyddiadau, bod gwrthdrawiad traffig ffordd rhwng dau gerbyd wedi digwydd yn ddiweddar yng Nghroesffordd Celynog tua 08:00, a bod tri cherbyd heddlu wedi mynychu'r safle – SCCH i wneud ymchwiliad
  - ◊ Cafwyd nifer o adroddiadau am gerbydau amheus yn teithio o amgylch yr ardal, o bosibl yn chwilio am dargedau posibl yn y dyfodol.

  Anogodd SCCH Jones y cyhoedd i fod yn wyliadwrus ac i roi gwybod am unrhyw weithgareddau amheus drwy ffonio 101, er mwyn i'r heddlu allu penderfynu a yw'n ddigwyddiad ar ei ben ei hun neu'n rhan o batrwm ehangach. Atgoffwyd pawb i ddefnyddio dyfeisiau cloi ar feiciau, beiciau modur, trelars, cwadiau ac offer tebyg — ateb rhad a syml.
- Cytunodd y Cyngor i ystyried gwneud cais i Cadwch Gymru'n Daclus am becyn garddio. Gellid rhannu'r pecyn rhwng yr ysgol, y clwb garddio newydd, a'r Cyngor Cymuned. Gwirfoddolodd y Cynghorydd Borthwick i lenwi'r ffurflen gais.
- Yn unol â'r weithdrefn gywir, dderbyniol, cafodd y Dr Patricia Mackinnon-Day ei chyfethol yn ffurfiol i'r Cyngor Cymuned.
- Mynegwyd pryderon ynghylch derwen ger Nant Glyd. Gan fod y goeden ar dir y Cyngor Sir, ymwelodd swyddog coed ac roedd o o'r farn nad oedd unrhyw risg.
- Adroddwyd bod yr awdurdod cynllunio, Cyngor Sir Ddinbych, wedi gwrthod y cais am do dormer yn Nhreborth. Nid oes penderfyniadau eto ar y ddau gais cynllunio ym Maes y Wern – y ddau achos heb eu penderfynu eto.
- Penderfynwyd prynu gliniadur a pheiriant argraffu at ddefnydd y Cyngor yn unig – byddai hyn yn diogelu'r Cyngor
- Wedi digwyddiad anffodus lle syrthiodd preswylydd yn y pentre', a chanfod bod cael cymorth yn reit heriol, penderfynwyd prynu chwibanau argyfwng fyddai ar gael o'r siop pe bai unrhyw breswylydd yn teimlo'r angen i'w defnyddio.
- Mae'r Ystafelloedd Coco wedi eu peintio ac mae Clive Jones a Carl wedi gwneud gwaith gwych.
- Cafwyd cais am hysbysfwrdd newydd. Bydd y Clerc yn delio â hyn.
- Yn dilyn trafodaeth gyda'r Clwb Llyfrau, penderfynwyd clirio'r ystafell uwchben – hyn i'w drefnu.
- Mynegwyd pryder gan y rheini oedd yn defnyddio'r maes pêl-droed, bod eiddo cyfagos wedi cynnau coelcerth a bod hyn wedi effeithio ar y chwarae. Cynghorwyd defnyddwyr i hysbysu CSDd trwy'r sianelau cywir, a gweld os oedd patrwm yn ymddangos – oedd hyn yn dân bwriadol neu ddigwyddiad un tro'n unig.

# Cyngor Cymuned Llandyrnog

**Nodiadau cyfarfod mis Hydref**
Rhoddwyd croeso cynnes i'r Cyng. Mackinnon-Day i'w chyfarfod cyntaf.

- Mae pryder gwirioneddol ynglŷn â'r parcio anystyriol o gwmpas cyffordd Teras Gladstone, ac effaith hynny ar ddiogelwch – mynediad i wasanaethau brys, ac, yn fwy na hynny, y broblem o geisio llywio bysus yn ardal y gyffordd. Penderfynwyd gofyn i Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub a Chyngor Sir Ddinbych i geisio datrysiad hirdymor. Nid yw'n anarferol gweld pedair fan fawr yn yr ardal – dwy ar y llain welededd a dwy yr ochr arall i'r ffordd. Mae'n codi pryder wrth glywed am un gyrrwr bws yn gorfod dod o hyd i berchennog un fan a gofyn iddo ei symud. Petai'n injan dân neu'n gerbyd llawer mwy, gallai pethau fod yn llawer gwaeth.
- Daeth hi'n amser i dacluso llawr cyntaf y Stafelloedd Coco – bu'n lle rhy gyfleus i gael gwared â phethau nad oedd eu hangen e.e. llyfrau diangen, ond yn ddefnyddiol i ddal offer sy'n eiddo i'r Cyngor Cymuned.
- Erbyn hyn mae'r Cyngor yn bancio ar y we, gyda rheolaeth ddeuol, sy'n golygu bod un o leiaf o'r ddau ag awdurdod llofnodi, yn awdurdodi unrhyw daliad.
- Prynwyd chwibanau lliwgar ar gyfer y rhai mwy bregus yn y gymuned a rhai sy'n gweithio ar eu pen eu hunain – mae'r rhain ar gael yn y Siop.
- Yn anffodus, ni lwyddodd y Cyngor yn eu cais i gael grant ar gyfer perllan, ond mae opsiynau eraill ar gael i'r Cyngor eu dilyn, os byddant yn addas.
- Roedd pryderon bod y datblygwr sydd yn adeiladu ar dir ger Maes Llan wedi torri gorchymyn dargyfeirio dros dro.
- Aeth cynrychiolydd dros Landyrnog i ddigwyddiad bioamrywiaeth yn Llysfasi ar Fedi 24ain. Rhoddodd Sam Langdon, Swyddog Bioamrywiaeth gydag Un Llais Cymru, gyflwyniad i bawb. Bydd yn cael gwahoddiad yn fuan i bwyllgor y Cyngor i gynnig cymorth wrth lunio cynllun bioamrywiaeth syml a chyflawnadwy. Mae hwn yn amod statudol erbyn hyn.
- Cynhaliwyd cyfarfod gyda Grŵp Cyswllt MHC i drafod pryderon a rhannu gwybodaeth. Deallwyd bod y lle'n llawn erbyn hyn – 72 o breswylwyr, a 350 o staff. Does dim staff asiantaeth – caiff pob aelod o'r staff ei gyflogi gan MHC.
- Cafwyd y newyddion diweddaraf ynglŷn â'r cais am gymhorthdal ar gyfer rhagor o offer yng Nghae Nant. Bydd dau gais yn cael ei gyflwyno, un i'r Loteri Genedlaethol ac un i Fferm Wynt Clocaenog. Diolchwyd i'r Cyng. Morris am ei waith ymchwil a'i geisiadau.
- Diolchwyd i'r Cyng. Williams am gynrychioli'r Cyngor Cymuned ar Bwyllgor Blynyddol Un Llais Cymru ar-lein.
- Cwblhawyd y gwaith ar geuffos uwchben Llangwyfan yn llawer cynt na'r disgwyl, ac mae'r ffordd ar agor eto.
- Mae'r broblem sbwriel i'w gweld o dan reolaeth, ar wahân i'r sbwriel sydd i'w weld rhwng Capel Isa a Ffordd Ddŵr. Efallai y bydd angen criw i godi sbwriel yn y dyfodol, a rhoi arwyddion i atgoffa gyrwyr a seiclwyr ac eraill i gael gwared â'u sbwriel mewn ffordd gyfrifol.

**Becky Gittins, AS Dwyrain Clwyd**
becky.gittins.mp@parliament.co.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01352 871130